

CEIDWADAETH: GWEITHGAREDDAU

Cymharu gwahanol ffrydiau ceidwadol (A01, A02)

Mae'r golofn gyntaf yn y tabl isod yn amlinellu amryw o wahanol safbwyntiau y gellir eu cysylltu â gwahanol ffrydiau ceidwadol. Darllenwch y wybodaeth yn ofalus ac yna ceisiwch benderfynu i ba un o'r ffrydiau ceidwadol sydd wedi'u rhestru yn y tabl y mae'r safbwynt yn perthyn agosaf iddo (rhochwch dic yn y blwch priodol). I orffen nodwch reswm i egluro eich dewis yn y golofn olaf.

Mewn rhai achosion, mae'n bosib y byddwch yn teimlo bod rhai o'r safbwyntiau yn medru cael eu cysylltu â mwy nag un o'r ffrydiau ceidwadol. Os byddwch yn dod i'r casgliad hwn, cofiwch egluro pam yn y golofn olaf.

SAFBWYNT: Fel mater o egwyddor dylid cyfyngu ar faint y mae'r wladwriaeth yn ymyrryd yn ein bywydau o dydd i ddydd, ac yn enwedig faint mae'n ymyrryd yn yr economi.	
✓ Ceidwadaeth Awdurdodaidd	Rheswm dros eich dewis
✓ Ceidwadaeth Draddodiadol	
✓ Y Dde Newydd neo-ryddfrydol	
✓ Y Dde Newydd neo-geidwadol	
SAFBWYNT: Mae dyletswydd ar aelodau breintiedig a chyfoethog cymdeithas i helpu'r rhai llai ffodus.	
✓ Ceidwadaeth Awdurdodaidd	Rheswm dros eich dewis
✓ Ceidwadaeth Draddodiadol	
✓ Y Dde Newydd neo-ryddfrydol	
✓ Y Dde Newydd neo-geidwadol	
SAFBWYNT: Mae system wleidyddol ddemocrataidd, sy'n rhoi pŵer yn nwylo pobl gyffredin yn beryglus ac yn medru arwain at ansefydlogrwydd difrifol.	
✓ Ceidwadaeth Awdurdodaidd	Rheswm dros eich dewis
✓ Ceidwadaeth Draddodiadol	
✓ Y Dde Newydd neo-ryddfrydol	
✓ Y Dde Newydd neo-geidwadol	
SAFBWYNT: Mae'n rhaid parchu arferion a sefydliadau traddodiadol, ond dylid hefyd ganiatáu newidiadau gofalus o dro i dro.	
✓ Ceidwadaeth Awdurdodaidd	Rheswm dros eich dewis
✓ Ceidwadaeth Draddodiadol	
✓ Y Dde Newydd neo-ryddfrydol	
✓ Y Dde Newydd neo-geidwadol	
SAFBWYNT: Dylai'r sawl sy'n llywodraethu fod yn bragmataidd, gan ffafrio polisïau sy'n ymarferol ac yn briodol ar y pryd, beth bynnag fo hynny.	
✓ Ceidwadaeth Awdurdodaidd	Rheswm dros eich dewis
✓ Ceidwadaeth Draddodiadol	
✓ Y Dde Newydd neo-ryddfrydol	
✓ Y Dde Newydd neo-geidwadol	
SAFBWYNT: Mae syniadau rhyddfrydol sy'n credu mewn goddefgarwch a rhyddid pobl i fyw fel y maent eisiau yn tanseilio cyfraith a threfn a'r teimlad o foesoldeb cymdeithasol.	
✓ Ceidwadaeth Awdurdodaidd	Rheswm dros eich dewis
✓ Ceidwadaeth Draddodiadol	
✓ Y Dde Newydd neo-ryddfrydol	
✓ Y Dde Newydd neo-geidwadol	